Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**Iechyd Diogelwch a Lles**

**Cyfeirnod: NU270**

**GRADD 8**
Cyflog: £25,991 - £27,041 y flwyddyn (pro rata)
30 awr yr wythnos

(Swydd dros dro ar gyfer cyfnod mamolaeth
Neu nes bydd deiliad y swydd yn dychwelyd i'r gwaith)

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn y tîm Iechyd Diogelwch a Lles a leolir yn ein Pencadlys - Parc Busnes Forest View, Llantrisant.

Rydym yn ceisio recriwtio unigolyn medrus a phrofiadol iawn i weithio o fewn cylch gwaith y 'Swyddog Iechyd Diogelwch a Lles'. Mae'r swydd hon ar gyfer cyfnod mamolaeth ac felly bydd ar gyfer cyfnod o 12 mis dros dro, neu hyd nes y bydd deiliad blaenorol y swydd yn dychwelyd i'r gwaith. Gan weithio'n rhan amser, ac yn gwneud 30 awr yr wythnos, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni ystod o ddyletswyddau.

Disgwylir i ddeiliad y swydd :

- Cynnal archwiliadau ac archwiliadau gorsafoedd
- Adolygu asesiadau risg
- Cyflwyno amrywiaeth o hyfforddiant a seilir ar iechyd a diogelwch
- Bod yn berson cyswllt ac ymgysylltu o ran materion yn ymwneud ag Iechyd a diogelwch yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gwahoddir ceisiadau gan weithwyr presennol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sydd â'r profiad a'r cymwysterau priodol i gwrdd â'r Fanyleb Person.

Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais, Disgrifiad Swydd a Manyleb Person trwy'r dudalen Swyddi Cyfredol ar safle Mewnrwyd y Gwasanaeth.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau personel@decymru-tan-.gov.uk **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: 12:00, ganol dydd ar 19eg Hydref 2021.**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG